Bwa a saeth

Trosolwg

Mae'r gweithgaredd hwn yn golygu creu bwa a saeth gan ddefnyddio brigau a llinyn, ac mae'n hybu'r gallu i wneud penderfyniadau cyfrifol.



Gweithgareddau

I greu bwa, bydd arnoch angen un brigyn hyblyg, cryf (mae helygen yn bren gwych ar gyfer hyn).
Clymwch linyn yn sownd wrth un pen y brigyn, yna rhowch y pen hwnnw ar y ddaear.
Pwyswch ar y brigyn fel ei fod yn plygu, a chlymwch ben arall y llinyn yn sownd wrth dop eich bwa.
Mae'r plyg yn y brigyn yn creu'r tensiwn ar y llinyn.
Dewch o hyd i saeth fyrrach ar gyfer y bwa.

Offer

- Brigau o amryw hyd
- Llinyn
- Targed i anelu ato, e.e. tarpolin â tharged arno, neu falŵn i'w fyrstio

Ambell gyngor am ddiogelwch

Cytunwch ar reolau clir a syml gyda'r plant ar gyfer cario, ar gyfer y man dan sylw ac ar gyfer ble y dylent anelu'r saethau. Bydd trwydded fwa, e.e. sticer, yn gallu bod yn gytundeb – dim trwydded, dim bwa. Crëwch storfa i'w defnyddio yn y dyfodol.

Deilliannau dysgu

- Defnyddio arfau'n ddiogel i hybu chwarae rôl, chwarae ailadroddol, chwarae cymdeithasol a chwarae symbolaidd (Hughes 1996).
- Dysgu bod yn gyfrifol amdanoch eich hun ac am eraill, a dysgu sgiliau cyfathrebu.

Symud y dysgu yn ei flaen

Rheoli risg.
Cysylltiadau â straeon cysylltiedig.
Dysgu'r gwahaniaeth rhwng adnoddau chwarae ac offer.